# Adroddiad Blynyddol 2017/18



**Cynghorydd Ioan C Thomas** **Ward Menai (Caernarfon)**

**Plaid Cymru**

Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

## Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Mynychu dros 90% o gyfarfodydd Cyngor Tref Caernarfon lle cefais gyfle i wrando ar faterion o gonsyrn mewn perthynas â fy nyletswyddau fel Cynghorydd Gwynedd.
- Cynnig cymorth i etholwyr ac unigolion eraill ar nifer o faterion, e.e. Cynllunio, Rhestrau Aros am gartref a materion glendid strydoedd a mannau cyhoeddus.
- Ateb ymholiadau gan nifer o etholwyr dros y ffôn, trwy lythyr, trwy e-bost, gan ymweld â chartrefi pan oedd cais am hynny bob tro.
- Cyfarfod a cherdded o gwmpas y ward gyda swyddogion Heddlu i dynnu sylw at broblemau achlysurol, ac yn benodol Ysgol Santes Helen, Pen Twtil, trac beics a safle Plas Brereton.
- Mynychu Cyfarfodydd Gŵyl Fwyd Caernarfon a chyfarfodydd Hwb Caernarfon yn ogystal â chyfarfodydd Grŵp Plaid Cymru yn rheolaidd dros y flwyddyn.

## Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

- Buddsoddi yng Ngwynedd 09/05/18
- Datblygu'r Tîm (Cabinet) - 5 Behaviours 19/03/18
- Datblygu Rheolwyr (Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith) Vanguard 17/01/18
- Rhiantu Corfforaethol 10/01/18
- Polisi Gosod a Digartrefedd 22/11/17
- Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb 08/11/17
- Egwyddorion Addysg 20/09/17
- Anwytho Aelodau 2017 - Gwybodaeth 09/05/17 a Cod Ymddygiad 09/05/17
- Anwytho Aelodau 2017 - Technoleg 09/05/17 a Democratiaeth 09/05/17